# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 20 Ionawr 2015** |
| Amser: | **09.33 – 10.30** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/efa73792-e4a9-49b9-8e6c-215f9a1f5242?autostart=True

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:
MeetingTitle

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Steve George (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**<br>**Kath Thomas (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Trafodaeth o’r sesiwn dystiolaeth ar 9 Rhagfyr 2014 – P-04-481 Cau'r bwlch ar gyfer disgyblion byddar yng Nghymru

2.1 Trafododd y Pwyllgor y sesiwn dystiolaeth a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2014 a chytunodd i:

- anelu at ymweliad ag ysgol gyfagos i weld o lygad y ffynnon y gwaith a wnaed yno i greu acwsteg ardderchog i bawb yn yr ysgol;
- ysgrifennu at y Sefydliad Acwsteg a Chymdeithas Ymgynghorwyr Sŵn yn gofyn am gael gweld eu canllawiau ar acwsteg – disgwylir iddynt fod ar gael yn gynnar eleni; a
- cheisio gwybodaeth bellach am bolisi ac arfer yn Lloegr i weld beth y gellir ei ddysgu.

## 3 Deisebau newydd

### 3.1 P-04-609 Cefnogwch Fusnesau Bach – Cefnogwch ein Strydoedd Mawr.

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- dynnu sylw'r Gweinidog at sylwadau’r deisebwr, yn enwedig o ran y diffyg amlwg yn y wybodaeth a’r cymorth sydd ar gael a beth y gellid ei wneud i wella hyn;
- gofyn am farn y Gweinidog ynghylch pa rôl y gallai Ffederasiwn y Busnesau Bach a’r Siambrau Masnach ei chwarae wrth ledaenu gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael; ac
- ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gofyn pa rôl y mae Awdurdodau Lleol yn ei chwarae o ran darparu gwybodaeth am gymorth i fusnesau bach.

## 4 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 4.1 P-04-440 : Dywedwch ‘Na’ i werthu asedau Ysbyty Bronllys

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu eto at Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, gan geisio ymateb ganddo i lythyr y Cadeirydd dyddiedig 17 Hydref y llynedd a’i farn ar sylwadau diweddaraf y deisebydd.

### 4.2 P-04-448 Gwella gwasanaethau iechyd rhywiol yng ngorllewin y Fro

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu eto at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn mynegi pryder mawr yn niffyg ymateb gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gyda chopïau'n mynd at Gadeirydd y Bwrdd Iechyd a Chadeirydd y Cyngor Iechyd Cymunedol; a
- llunio papur i ddwyn ynghyd y wybodaeth am yr anawsterau o ran cael ymatebion gan Fyrddau Iechyd ar nifer o ddeisebau.

**4.3P-04-587 Tîm Cymorth pwrpasol ar gyfer dioddefwyr Enseffalomyelitis Myalgig (ME), Syndrom Blinder Cronig a Ffibromyalgia yn ne-ddwyrain Cymru**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog:

- gan dynnu ei sylw at sylwadau pellach y deisebwyr, yn enwedig eu pryderon bod yr cyflyrau hyn yn cael eu hystyried yn rhai seicolegol yn hytrach na rhai niwrolegol; ac
- i ofyn am ragor o wybodaeth am gynnydd tuag at sefydlu Grŵp Gweithredu Cymru Gyfan.

**4.4P-04-600 Deiseb i Achub y Gwasanaeth Meddygon Teulu**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am ei farn ar sylwadau'r deisebydd; a
- gofyn i'r tîm clercio ganfod a oes gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y gallu i ystyried y materion a godwyd gan y ddeiseb.

Ar bwynt mwy cyffredinol, cytunodd y Pwyllgor y dylai Aelodau gael copïau o Flaenraglenni Gwaith Pwyllgorau eraill.

**4.5P-04-546 Magu anifeiliaid dan amodau annaturiol**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, yn gofyn am ei barn ar y materion a godwyd gan y ddeiseb.

**4.6P-04-540 Stopio rhagfarn ar sail rhyw mewn cam-drin domestig**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus am ei farn ar sylwadau'r deisebydd, gan amlygu nifer o bwyntiau a wnaed yn ystod y drafodaeth.

### 4.7P-04-516 Gwneud gwyddor gwleidyddiaeth yn rhan orfodol o addysg

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- anfon sylwadau'r deisebydd at yr Athro Donaldson yn gofyn iddynt gael eu hystyried yn ei adolygiad; ac
- ystyried y ddeiseb drachefn pan gyhoeddir adroddiad yr Athro Donaldson.

### 4.8P-04-589 Lleihau Nifer y Cynghorwyr ac Aelodau Gweithredol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu eto at y deisebydd, yn gofyn am gadarnhad iddo dderbyn yr ohebiaeth wreiddiol ac a oes ganddo sylwadau i'w gwneud ar ohebiaeth y Gweinidog, ac yn ei hysbysu bod y Pwyllgor yn bwriadu cau'r ddeiseb.

### 4.9P-04-591 Cyllid Teg ar gyfer Llywodraeth Leol

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu eto at y deisebydd, gan ofyn am gadarnhad iddo dderbyn yr ohebiaeth wreiddiol ac a oes ganddo unrhyw sylwadau i'w gwneud ar ohebiaeth y Gweinidog, ac yn ei hysbysu bod y Pwyllgor yn bwriadu cau’r ddeiseb.

## 5 Adolygiad o'r System Ddeisebau

5.1 Trafododd y Pwyllgor lythyr y Llywydd lle mae’n cynnig adolygiad o system ddeisebau’r Cynulliad a chytunwyd:

- y dylai'r Pwyllgor wneud y gwaith y mae’r Llywydd yn gofyn amdano;
- y cylch gorchwyl a awgrymir yn ei llythyr; a
- dull cyffredinol y Pwyllgor ar gyfer yr adolygiad.